**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

*Gwnaed yr Offeryn Statudol hwn o ganlyniad i ddiffyg yn O.S. 2023/1232 (Cy. 218) ac fe'i dyroddir yn rhad ac am ddim i bawb y gwyddys iddynt gael yr Offeryn Statudol hwnnw.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 Rhif 1337 (Cy. 242)

# CYFLOGAETH A HYFFORDDIANT, CYMRU

## Gorchymyn Prentisiaethau (Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru) (Addasu) (Dirymu) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *7 Rhagfyr 2023* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *8 Rhagfyr 2023* |
| *Yn dod i rym - -* | *9 Rhagfyr 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir gan adran 29(1) o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009(**1**).

**Enwi a dod i rym**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Prentisiaethau (Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru) (Addasu) (Dirymu) 2023 a daw i rym ar 9 Rhagfyr 2023.

**Dirymu**

**2.** Mae Gorchymyn Prentisiaethau (Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru) (Addasu) 2023(**2**) wedi ei ddirymu.

*Vaughan Gething*
Gweinidog yr Economi, un o Weinidogion Cymru

7 Rhagfyr 2023

(**1**) 2009 p. 22.
(**2**) O.S. 2023/1232 (Cy. 218).

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn wedi ei wneud o dan adran 29(1) o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 ac mae'n dirymu Gorchymyn Prentisiaethau (Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru) (Addasu) 2023.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.